# Gwyneth Gwella

Un diwrnod braf, roedd geneth gweithgar o'r enw Gwyneth yn adeiladu robot yn yr ysgol. "Mae'r robot yma yn mynd i fod yn wych!" meddyliodd Gwyneth. Estynodd Gwyneth y glud o'r silff top a chychwynnodd adeiladu y robot gorau erioed.

Gweithiodd Gwyneth yn galed iawn am ddwy awr, ond o'r diwedd roedd y robot wedi ei orffen. Ond doedd Gwyneth ddim yn hapus iawn efo'r robot. "Nid y robot gorau yn y byd yw'r robot yma." dywedodd Gwyneth. Roedd Gwyneth yn teimlo'n ddigalon, roedd hi wedi gweithio mor galed.

Ar ôl munud neu ddwy yn meddwl, penderfynnodd Gwyneth feddwl am ffordd i wella'r robot. Aeth ati i gynllunio a gosod syniadau ar sut i wella. Cyn pen dim gyda ychydig o gliter, glud, papur lliw a defnydd fflwfflyd roedd y Robot gorau yn y byd yn barod. "Dyna welliant" meddyliodd Gwyneth. Roedd Gwyneth yn barod i gyflwyno'r robot gorau yn y byd i bawb.